

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor
Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r
meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer
y flwyddyn 2014–15

Arolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015

Awdurdod **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn dangos gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1. Crynodeb

- 1.1. Mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wedi newid eleni, ynghyd ag uwch-staff eraill. Mae pwysau ariannol sylweddol ar yr awdurdod, er nad yw'r cyfarwyddwr yn teimlo bod hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar y gwasanaethau i bobl hyd yma.
- 1.2. Mae pobl yn dechrau gweld manteision gwasanaethau rhwystro ac ymyrryd yn gynnar. Mae hyn wedi cyfrannu tuag at lai o oedi i bobl sy'n gadael ysbyty ac wedi arwain at sefyllfa lle mae lai o bobl hŷn angen gofal preswyl a/neu gymorth hirdymor yn y gymuned. Mae'r cyfarwyddwr yn glir y gellir cael cynnydd pellach wrth leihau yn ddiogel ymyraethau tymor hirach trwy ddarparu gwasanaethau ailalluogi. Mae'n ymwybodol y bydd yn bwysig cynnwys y gymuned yn llawn yn y broses newid hon sydd ei hangen dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Deddf GCLIC) a'r pwysau ariannol presennol ar yr awdurdod lleol. Mae'r cyngor yn gynyddol yn comisiynu gwasanaethau yn hytrach na darparu rhai ei hunan. Mae mwy o gynnydd y gellir ei wneud i sicrhau comisiynu gwasanaethau arloesol a rhagweithiol sy'n diwallu anghenion pobl ac sy'n dilyn yr ymgyrch tuag at fwy o annibyniaeth lle mae hyn yn bosibl.
- 1.3. Mae'r cyngor yn cymryd rhan mewn nifer o elfennau o gydweithio gyda Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cynon Taf (BIPCT). Enghraifft o arloesi yw sefydlu'r Ganolfan Amddiffyn Amlasiantaeth. Dylai'r cyngor barhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd ac arferion da trwy gymryd y cyfleoedd i weithio ar y cyd â chynghorau eraill. Mae rheidrwydd clir i integreiddio gwasanaethau gydag iechyd, ac mae lle i wella ar gyflymder y newid yma.
- 1.4. Mae perfformiad mewn agweddau o wasanaethau plant wedi gostwng eleni. Mae llai o blant wedi dod yn blant sy'n derbyn gofal o ganlyniad i strategaeth ystyrlon, ac mae nifer y plant a ddodwyd ar y gofrestr amddiffyn plant hefyd wedi gostwng. Mae'r cyngor yn ymgymryd â dadansoddiad pellach o'r rhesymau y tu ôl i'r gostyngiad hwn i'w fodloni

ei hunan bod y penderfyniadau a gymerir yn gadarn. Er y bu gostyngiad bach iawn yn nifer y plant yr ystyrir eu bod 'mewn angen', nid yw'n glir eto p'un a yw gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn cael effaith sylweddol o ran lleihau'r llif o blant sydd angen mathau traddodiadol o gymorth gan wasanaethau cymdeithasol.

2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Maes i'w wella a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2014-2015
Parhau i yrru ymlaen gyda'r agenda integreiddio	Peth cynnydd mewn trefniadau cydweithio mewn meysydd arferion penodol. Gellid cael cynnydd pellach mewn perthynas â chyflymder y newid.
Cynnal y ffocws ar hyrwyddo ymwybyddiaeth ynglŷn â diogelu a rhianta corfforaethol	Sefydlu'r Ganolfan Amddiffyn Amlasiantaeth, gwell gweithgarwch gan Fwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf, polisi diogelu corfforaethol, hyfforddiant i aelodau etholedig a staff y cyngor y tu allan i'r gwasanaethau cymdeithasol.
Parhau ei ffocws ar gyflenwi canlyniadau yn y gwasanaethau plant ac oedolion	Mae peth cynnydd yn amlwg. Lleihad yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant. Lleihad yn y nifer o bobl hŷn mewn gofal preswyl ac ailalluogi yn hybu annibyniaeth.
Darparu'r cymorth a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i'r tîm rheoli nes bydd tîm arweinyddiaeth newydd wedi ei ymgorffori'n llawn	Cyfarwyddwr newydd wedi ei benodi a newidiadau yn ystod y flwyddyn ar lefel uwch-reolwyr. Cyflwynwyd strwythur uwch-reoli newydd. Trefniadau cynorthwyo yn bodoli.
Monitro yn agos effaith penderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas â diddymu gwasanaethau oedolion mewn ymateb i gyllidebau llai	Dywed y cyngor na fu effaith arwyddocaol ar bobl yn 2014-2015.
Gwella trefniadau pontio i sicrhau bod pobl ifanc sy'n camu i fyd oedolion yn cael eu bodloni'n briodol	Adolygiad o bobl ifanc sy'n gadael gofal a rhai 16+ wedi ei gynllunio ar gyfer 2015-2016. Nodwyd bod angen cymorth ar oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Gwnaed rhyfaint o gynnydd o ran mapio anghenion pobl ifanc sydd ag anableddau ac sy'n mynd drwy'r cyfnod pontio i fod yn oedolion.
Deall y rhesymau y tu ôl i'r niferoedd isel sy'n gofyn am gymorth i ofalwyr	Peth cynnydd ond yn parhau i fod yn flaenoriaeth.
Monitro lefelau oedi wrth drosglwyddo gofal yn agos dros y flwyddyn i ddod	Cafwyd gwelliant. Angen gwelliant pellach i gyrraedd cyfartaledd Cymru.

Atgyfnerthu dulliau comisiynu a monitro contractau yn y gwasanaethau i blant ac oedolion	Peth cynnydd. Strategaeth newydd Comisiynu ar y Cyd i Oedolion yn y cyfnod ymgynghorol. Gwaith gan Gonsortiw Comisiynu Plant Cymru i'w gwblhau yn 2015-2016.
Gweithredu'r strategaeth recriwtio a marchnata yn arbennig yn berthnasol i ofalwyr maeth sydd â'r sgiliau i ddiogelu'n effeithiol y plant a'r bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth a'r rhai sy'n arddangos yr ymddygiad mwyaf peryglus	Cafwyd cynnydd. Gofalwyr maeth ychwanegol wedi eu recriwtio a hyfforddiant ychwanegol wedi ei roddi.
Gwella perfformiad mewn perthynas ag arolygiadau a ymgwymerwyd yn y gwasanaethau oedolion	Cafwyd gwelliant. Angen gwelliant pellach i gyrraedd cyfartaledd Cymru.
Gweithio gyda chydweithwyr iechyd i wella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed fel bod anghenion therapiwtig yn cael eu bodloni yn brydlon	Amser aros am fynediad i wasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed yn parhau i fod yn destun pryder. Cydnabyddir hyn gan BIPCT a Llywodraeth Cymru.
Rhoi sylw pellach i ddatblygu gwasanaethau dementia arbenigol	Dim camau gweithredu penodol; mae'r cyngor yn parhau i ystyried.
Parhau i ddatblygu'r fframwaith canlyniadau ar gyfer mesur canlyniadau i deuluoedd	Mae staff wedi derbyn hyfforddiant ac mae gwaith seiliedig ar ganlyniadau yn cael ei ymgorffori o fewn gwaith y gwasanaethau plant.

3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Mae ymweliadau safle yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n derbyn gwasanaethau, eu teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, cafwyd ymweliadau safle i arolygu:
 - Gwasanaethau a chymorth i ofalwyr
 - Trefniadau diogelu oedolion
- 3.2. Hefyd, cyfarfu AGGCC ag uwch-swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn i arolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a thrafod cynnydd yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Roedd y cyngor yn gymwynasgar yn ei gysylltiad ag AGGCC, a rhoddodd fynediad rhwydd i alluogi ymweliadau safle.
- 3.3. Yn ystod y flwyddyn, ymgwymerodd AGGCC ag arolygiadau o wasanaethau rheoledig a redir gan y cyngor a chan weithredwyr annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys arolygiadau o'r gwasanaeth maethu mewnol a chartrefi

gofal oedolion. Cynhwysir manylion y rhain mewn adroddiadau a gyhoeddwyd, ac maent ar gael ar wefan AGGCC.

- 3.4. Cymerodd AGGCC ran yn arolwg Swyddfa Archwilio Cymru: Annibyniaeth Pobl Hŷn, a fydd yn adrodd yn ystod 2015-2016.

4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- 4.1. Adnabuwyd nifer o feysydd lle mae angen gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Caiff cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn y flwyddyn i ddod. Bydd meysydd penodol lle bydd angen camau dilynol yn cynnwys:

- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Gwasanaethau rhwystro ac ymyrryd yn gynnar i oedolion
- Cymorth i blant a theuluoedd gan y gwasanaeth uwch ar gyfer plant mewn angen
- Gweithredu'r protocol ymddygiad cymryd risg (bwrdd diogelu plant Cwm Taf)
- Trafodaeth ynglŷn â dadansoddi cofrestru amddiffyn plant

5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

Oedolion

Trosolwg

- 6.1. Blaenoriaethau'r cyngor ar gyfer gwasanaethau oedolion yw hyrwyddo gwasanaethau ailalluogi ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer pobl i leihau'r angen am ofal a chymorth hirdymor. Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen iddo ymgysylltu â phobl ar y newidiadau y mae'n dymuno eu gwneud i ofal cymdeithasol i newid disgwyliadau o'r gwasanaethau traddodiadol ac i baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Deddf GCLI).

- 6.2. Mae'r cyngor wedi ceisio lleihau nifer y bobl hŷn (dros 65 oed) sydd mewn gofal preswyl ac wedi cyflawni gostyngiad yn y gyfradd, o 22 fesul 1,000 o'r boblogaeth i 20 fesul 1,000. Mae hyn wedi rhoi stop ar y duedd ar i fyny ers 2011. Serch hynny, mae cyfradd uwch o hyd o bobl hŷn mewn gofal preswyl ym Merthyr Tudful nag yn y mwyafrif o awdurdodau Cymru. Mae uwch-reolwyr yn parhau i ystyried sut gellir lleihau hyn ymhellach yn ddiogel.
- 6.3. Mae'r cyngor yn rhedeg dau gartref gofal sy'n rhoi cymorth i bobl ag anghenion gofal personol, rhai ohonynt gyda dementia. Mae galw cynyddol am leoedd i bobl â dementia ym Merthyr Tudful, fel mewn mannau eraill. Mae'r ddau gartref wedi eu harolygu gan AGGCC eleni, ac fe gyflwynwyd hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio i un oherwydd torri rheoliadau. Ymatebodd yr awdurdod lleol i'r materion hyn, ac mae arferion wedi gwella. Fodd bynnag, dylai'r cyngor barhau i sicrhau bod ganddo systemau sicrhau ansawdd cadarn yn bodoli. Comisiynodd y cyngor arolygiad annibynnol o'r cartrefi hyn yn ystod y flwyddyn, a bydd yn parhau i ystyried y gwerth am arian a gynrychiolir gan y cartrefi a'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion cynyddol gymhleth y boblogaeth breswyl i'r dyfodol.
- 6.4. Mae cartrefi gofal ym Merthyr Tudful yn y sector annibynnol ar y cyfan wedi darparu gofal o ansawdd da yn ystod y flwyddyn. Mae rhannu gwybodaeth rhwng diogelu a chontractau a chomisiynu wedi ymddangos yn dda yn weithredol, er ein bod yn nodi nad yw'r protocol perfformiad darparwyr a fwriadwyd eleni wedi ei sefydlu yn unol â'r cynlluniau. Gydag adnoddau ychwanegol, mae wedi ei gynllunio ar gyfer 2015-2016. Lle nodwyd pryderon ynglŷn â lleoliad neu wasanaeth penodol, rydym wedi nodi bod partneriaid yn rhannu gwybodaeth ac yn cytuno ar gamau gweithredu.
- 6.5. Rydym yn cynghori'r cyngor i barhau i fonitro capasiti mewn diogelu oedolion a chontractau a chomisiynu. Oherwydd maint yr awdurdod, mae timau llai yn golygu mai ychydig o wytnwch sydd, ac mae angen cynlluniau wrth gefn. Yn benodol, nid yw adnoddau i fonitro lleoliadau preswyl lle mae'r cyngor yn comisiynu lleoliadau wedi bod yn gadarn yn ystod 2014-2015, er bod hyn wedi derbyn atodiad yn 2015-2016.
- 6.6. Mae'r cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn 2014-2015 o ran lleihau'r gyfradd oedi wrth i bobl adael yr ysbyty am resymau gofal cymdeithasol o chwech o bobl fesul 1,000 i bump o bobl fesul 1,000. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru. Mae'r cyfarwyddwr yn priodoli'r llwyddiant i waith y timau ymateb rhagarweiniol ac ailalluogi. Trafodir y gwasanaethau hyn ymhellach isod. Deallir bod oedi oherwydd pwysau

dros y gaeaf a diffyg gwelyau nyrsio ar gael ar unwaith mewn cartrefi gofal ar adegau penodol. Mae angen cynyddol am welyau nyrsio o fewn yr awdurdod neu yn yr ardal o gwmpas, ac mae'r strategaeth gomisiynu yn adlewyrchu hyn.

- 6.7. Ar y cyfan, gostyngodd y cyngor y gyfradd o bobl hŷn y mae'n eu cynorthwyo yn y gymuned o 109 fesul 1,000 i 86 o bobl. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth sy'n cynyddu a chyfartaledd Cymru o 67 o bobl fesul 1,000, sy'n golygu mai Merthyr Tudful yw'r pumed uchaf yng Nghymru o ran lefel cymorth yn y gymuned i bobl hŷn. Strategaeth y cyngor yw lleihau nifer y bobl mae'n eu cynorthwyo trwy wella amrediad ac effeithiolrwydd y gwasanaethau rhwystro ac ymyrryd yn gynnar. Bydd hyn yn lleihau'r angen am ymyrraeth tymor hirach, ac mae'r gostyngiad a drafodir yma yn awgrymu efallai bod y gwasanaethau hyn yn cael effaith.
- 6.8. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyngor wedi cymryd camau i drosglwyddo gweithrediadau ei ddau wasanaeth gofal cartref i ddarparwyr allanol, ac erbyn dechrau 2015-2016, mae Merthyr Tudful yn comisiynu ei holl gymorth gofal cartref. Ymgwymerwyd arolwg o farn defnyddwyr gwasanaeth gan y cyngor, a ganfu fod traean yr ymatebwyr yn cefnogi'r trosglwyddiad i ddarparwr annibynnol. Arolygwyd un o'r gwasanaethau awdurdod lleol gennym yn 2014-2015, a oedd yn foddhaol, ac roedd y llall ar fin cofrestru.
- 6.9. Ymgwymerodd y cyngor ag arolygiadau mwy amserol o gynlluniau gofal oedolion eleni ac felly rhoi stop ar y dirywiad mewn perfformiad dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2014-2015, arolygwyd 79% o gynlluniau gofal, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru. Byddai gwella ymhellach i gyrraedd y 90% a gyflawnwyd yn 2009-2010 yn nod cadarnhaol, ac mae hyn yng nghyd-destun llai o bobl i'w harolygu. Nodwyd anawsterau staffio mewn timau fel rheswm am beidio â chael cynnydd pellach. Mae arolygiadau yn sicrhau bod angen pobl am ofal a chymorth yn cael ei fodloni a bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn briodol yn ôl angen. Mae hefyd yn gyfle i reolwyr gofal adnabod pryderon yn deillio o ofal preswyl neu gartref oedolion sy'n agored i niwed.
- 6.10. Roedd y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn destun archwiliad cenedlaethol gan AGGCC ac AGIC ar ddechrau 2014. Ni wnaethpwyd gwaith maes ym Merthyr Tudful, ond rhennir trefniadau gyda BIPCT a Rhondda Cynon Taf, a oedd yn destun ymweliadau gwaith maes. Adnabuwyd peth oedi o ran adnabod aseswyr budd gorau, yr oedd cynghorau a'r bwrdd iechyd yn ceisio ei wella. Gwnaed argymhellion mewn perthynas â mwy o strwythur a llywodraethu, a chydabuwyd bod partneriaid wedi cydnabod y materion hyn cyn yr arolygiad. Ynghyd ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae 2014-2015 wedi gweld

cynnydd mawr yn y ceisiadau am awdurdodiadau dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid o ganlyniad i benderfyniad Gorllewin Sir Gaer. Cynyddodd ceisiadau ym Merthyr Tudful o saith yn 2013-2014 i 212 yn 2014-2015. Cynyddodd yr awdurdod ei nifer o aseswyr budd gorau ar ddiwedd y flwyddyn, gyda golwg ar gynyddu capasiti ymhellach yn 2015-2016 a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n deg ar draws yr awdurdodau. Roedd 23 o'r ceisiadau hyn yn 2014-2015 yn destun asesiad, a arweiniodd at restr aros faith ar ddechrau 2015-2016. Mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio pecyn blaenoriaethu i sicrhau bod asesiadau yn cael eu cwblhau lle mae'r angen mwyaf, ac fe'n hysbysir bod asesiadau yn mynd rhagddynt yn gyflymach. Fodd bynnag, mae capasiti yn debygol o barhau i fod yn broblem eleni oherwydd y nifer fawr o geisiadau a dderbynnir.

- 6.11. Nid oedd newid arwyddocaol yn y gyfran o oedolion dan 65 oed y mae'r cyngor yn eu cynorthwyo yn y gymuned, ac mae hyn yn aros yn debyg i gyfartaledd Cymru. Mae AGGCC yn ymgymryd ag adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i oedolion ag anabledd dysgu yn 2015-2016, a byddwn yn dysgu mwy am brofiad yr oedolion sy'n derbyn cymorth pan ymgwymerir â'r arolygiad hwn. Dymuna'r cyngor gynyddu nifer yr oedolion sy'n derbyn cymorth gan y cynllun Rhannu Bywydau, a redir gan Gynllun Lleoli Oedolion De-ddwyrain Cymru. O fis Ionawr 2015, dim ond un person oedd mewn lleoliad hirdymor, roedd chwech o bobl wedi derbyn cymorth seibiant, ac eraill wedi cael cymorth sesiynol. Ni ellir diwallu'r galw am y gwasanaeth hwn, ac mae'r cynllun yn blaenoriaethu recriwtio mwy o bobl i gynnig lleoliadau ym Merthyr Tudful a chynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol. Mae'r cyngor hefyd yn cynnal dau gartref cofrestredig ar gyfer oedolion ifanc ond yn bwriadu trosi'r rhain yn gyfleusterau llety â chymorth a'u rheoli gan ddarparwr allanol. Canfu ein harolygiadau o'r cartrefi hyn yn 2014-2015 eu bod yn darparu lefel dda o ofal a chymorth.
- 6.12. Ymgwymerasom â gwaith safle ym mis Mawrth 2015 yn ystyried cymorth y cyngor i ofalwyr. Nodwyd yr adroddiad cynhwysfawr gan yr Uned Pobl a Gwaith y gellir ei defnyddio i gael gwybodaeth ar gyfer datblygu gwasanaeth. Gostyngwyd cyllid i ofalwyr yn 2014-2015, gyda gostyngiad pellach yn 2015-2016. Mae'r awdurdod yn rhannol ariannu un swydd swyddog gwybodaeth a datblygu gofalwyr, a reolir yn y sector gwirfoddol. Nid yw'r cyngor yn cyflogi gweithwyr cymdeithasol arbenigol yn uniongyrchol, gan ddibynnu ar reolwyr gofal i gwblhau asesiadau gofalwyr a hyrwyddwyr mewn timau i gynyddu ymwybyddiaeth a dosbarthu gwybodaeth.
- 6.13. Mae dangosyddion perfformiad ar gyfer 2014-2015 yn dangos bod cynnydd o 47 o ofalwyr wedi eu hadnabod yn yr awdurdod a chynnydd o 36% i 40% o ofalwyr a gafodd asesiad o'u hanghenion yn y flwyddyn.

Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (37%). Mae 69% o'r rhai a aseswyd yn derbyn gwasanaeth o ganlyniad, heb gynnwys seibiant. Mae gwerth clir i fwyafrif y gofalwyr sy'n cael asesiad o'u hanghenion. Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn amlinellu'r nod o adnabod mwy o ofalwyr ac ymgymryd â mwy o asesiadau. Dylai gwell cofnodi gynhyrchu data cywirach eleni; mae hon wedi bod yn broblem hirdymor ym Merthyr Tudful ac awdurdodau eraill. Rydym wedi argymhell bod y cyngor yn adolygu'r rhesymau dros ofalwyr yn gwrthod asesiadau i weld os gellir rhoi mwy o anogaeth. Rydym hefyd wedi argymhell bod holl staff gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol o hawliau ac anghenion gofalwyr. Bu i ni siarad â nifer fechan o ofalwyr eleni a ddywedodd eu bod yn fodlon gyda'r cymorth maent yn ei dderbyn.

- 6.14. Mae'r cyngor wedi mabwysiadu model cryf o gydweithio trwy ddatblygu'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH) gyda Rhondda Cynon Taf, yr heddlu, a BIPCT. Mae MASH yn cwblhau cyfnodau cynnar trefniadau diogelu ar gyfer oedolion a phlant, a daethant yn weithredol ar gyfer atgyfeiriadau oedolion ym mis Ionawr 2015. Gobeithir y bydd cael partneriaid allweddol gyda'i gilydd ar un safle yn cynyddu rhannu gwybodaeth ac arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae staff gwaith cymdeithasol o'r ddau gyngor yn gweithredu ar wahân o fewn MASH, a bydd yn bwysig bod mwy o integreiddio yn digwydd dros amser os yw effaith lawn y fenter hon i'w gwireddu.
- 6.15. Mae'r cyngor yn parhau i berfformio'n dda o ran rheoli risg pan fydd yn derbyn atgyfeiriadau amddiffyn oedolion. Mae nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn 2014-2015 wedi syrthio i 68, sy'n cymharu gyda 2011-2013 ond yn is na'r cynnydd arwyddocaol mewn pryderon a atgyfeiriwyd yn 2013-2014. Roedd hyn yn rhannol oherwydd nifer uchel o bryderon o leoliad preswyl penodol y flwyddyn honno. Cwblhaodd AGGCC waith safle ar drefniadau amddiffyn oedolion ym mis Chwefror 2015. Ar y cyfan, cawsom fod y system a'r broses ar gyfer amddiffyn oedolion mewn perygl ym Merthyr Tudful yn gadarn, gyda mecanweithiau monitro a sicrhau ansawdd cryf. Gwnaed ymdrechion i godi proffil amddiffyn oedolion ar draws y cyngor, ac mae angen gwaith pellach yn y maes hwn o hyd. Mae'r cyngor wedi ymateb yn gyflym i'n hadborth trwy ddyfeisio cynllun gweithredu, ac mae hwn wedi bod gerbron y pwyllgor craffu. Mae'r cyngor wedi elwa o arweinyddiaeth gref gan y rheolwr diogelu, lle mae'r swydd hon yn rheoli gwaith diogelu oedolion a phlant.
- 6.16. Mae'r cyngor wedi adnabod ymateb mwy amserol i gwynion fel nod ar gyfer y flwyddyn nesaf, a nodwyd gennym mai dim ond hanner y cwynion (51%) a gafodd ymateb o fewn yr amserlenni rhagarweiniol. Cafodd y mwyafrif (86%) eu datrys yng ngham un y broses, er y gall gwelliannau mewn amserau ymateb ddeillio o ostyngiad yng nghyfradd y pryderon sy'n cael eu huwchgwyfeirio.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.17. Mae'r cynllun sy'n deillio o'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn ledled Cwm Taf ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd anghenion eu mapio yn ystod 2014-2015, ac mae'r cyngor, ar y cyd â Rhondda Cynon Taf, BIPCT, a'r trydydd sector, yn cynnig model tair rheng gyda mwy o bwyslais ar rôl y gwasanaethau prifysgol lleol i gefnogi pobl a gwella llesiant. Ar y cyd, mae gwasanaethau ailalluogi yn darparu ymyrraeth gynnar gyda golwg ar leihau'r angen am wasanaethau arbenigol. Bwriad hyn yw lleihau gwariant ac alinio gwasanaethau a'r agwedd tuag at y Ddeddf GCLIC.
- 6.18. Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r angen i wella argaeledd a mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth, ac ystyried ymhellach ddulliau o newid disgwyliadau llawer yn y boblogaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau uniongyrchol. Yr her i'r awdurdod fydd y gefnogaeth y gall ei rhoi i grwpiau cymunedol a'r rhai yn y trydydd sector i sefydlu adnoddau cyffredinol digonol yn wyneb llymder economaidd. Mae gan Ferthyr Tudful lefelau ail uchaf amddifadiad yng Nghymru, fel y caiff ei fesur gan y mynegai amddifadedd lluosog.
- 6.19. Cyflawnodd rhyw draean (64%) o'r 393 o bobl a adawodd yr ysbyty a'u cefnogi gan y gwasanaeth ailalluogi yn 2014-2015 annibyniaeth o'r gwasanaethau ar ôl ymyrraeth neu fe'u trosglwyddwyd i ddarparwr gofal ar becyn cymorth llai. Mae hyn yn cymharu gyda chyfartaledd o 71% ledled Cymru, a nodwyd yn adroddiad yr Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol a ryddhawyd ym mis Rhagfyr 2014. Bydd y cyngor yn dymuno parhau i wella ar ailalluogi pobl lle'n bosibl, er rydym yn cydnabod nad yw dangosyddion perfformiad eto wedi eu sefydlu. Ymddengys yn debygol bod gwaith ymyrryd yn gynnar ac ailalluogi wedi bod yn effeithiol, gan fod y cyngor wedi cynorthwyo llai o bobl hŷn mewn gofal preswyl ac yn y gymuned.
- 6.20. Roedd yr awdurdod yn wynebu gostyngiad arwyddocaol yn y Gronfa Gofal Canolraddol yn mynd i 2015-2016, a oedd yn achosi pryder sylweddol ymhlith darparwyr trydydd sector tuag at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r holl wasanaethau yn cael eu hadolygu yn y flwyddyn hon, ac mae dau gydgysylltydd gofal cymunedol wedi eu penodi. Nid yw gwasanaethau dydd oedolion ym Merthyr Tudful wedi eu heffeithio'n sylweddol gan faterion cyllidebol, ac mae'r gwasanaethau wedi eu dychwelyd i bortffolio'r pennaeth gwasanaethau oedolion ar ddiwedd 2014-15, a all godi proffil gwasanaethau o'r fath o fewn y gwasanaethau cymdeithasol.

- 6.21. Mae Merthyr Tudful yn bartner ar Fwrdd Partneriaeth 'Gyda'n Gilydd Dros Iechyd Meddwl' a sefydlwyd gan BIPCT. Mae'r bartneriaeth wedi cefnogi amrediad o waith llesiant, a amlinellwyd yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf. Mae hyn yn cynnwys cefnogi Cymunedau yn Gyntaf ac asiantaethau eraill i gyflenwi mewnbwn yn ymgyrchu yn erbyn unigrwydd, cyngor ar ddyledion, opsiynau amgen i ddefnyddio tabledi gwrth-iselder, ac ati. Mae'r bwrdd wedi adnabod amrediad o flaenoriaethau, gan gynnwys mwy o ymgysylltu â dinasyddion i sicrhau gwell cyfranogiad cymunedol i gyflawni canlyniadau lefel uchel a lleol. Dymuna'r cyngor gynyddu ymhellach y nifer sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn 2015-2016 ar ôl cynnydd eleni. Mae'r cyfarwyddwr wedi adnabod blaengareddau newydd a fydd yn dechrau yn 2015-2016 ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cyngor wedi rhagweld ceisiadau cynyddol am asesiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl o ganlyniad i gyfraith achosion a'r potensial i hyn gynyddu cyfrifoldebau ariannol ar gyfer lleoliadau. Nid ydym yn ymwybodol i ba raddau y mae hyn wedi ei wireddu, ond mae uwch-reolwyr, wrth reswm, yn ymwybodol o'r galw cynyddol ar gyllidebau ar adeg o lymdder ariannol.

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn ag anghenion cymhleth

- 6.22. Mae'r cyngor yn bartner gyda Rhondda Cynon Taf a BIPCT wrth gynhyrchu cyd-ddatganiad o ddiben mewn perthynas â phobl hŷn ag anghenion cymhleth (Mawrth 2014). Mae'r pwyslais ar rwystro ac ymyrryd yn gynnar, fel y byddai rhywun yn disgwyl. Amlinellir ffrydiau gwaith presennol sy'n cynnwys y model henoed eiddil ac adsefydlu a chynllunio i ddatblygu'r fenter '@home' ymhellach, sydd wedi ei gynllunio i ganiatáu rhyddhad amserol trwy ddarparu gwasanaeth ailalluogi. Rydym yn deall y bydd hyn yn cynnwys mwy o rôl i iechyd yn y gymuned ac angen i wella cysondeb a chydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn weithredol.
- 6.23. Mae cyd-wasanaeth dementia yn cael ei ddatblygu gyda'r bwrdd iechyd trwy ddwyn ynghyd y gwasanaethau gwahanol wedi eu lleoli ar y Parc Iechyd. Rhagwelir hefyd wasanaeth iechyd meddwl pobl hŷn, ac rydym yn bwriadu ymgymryd â pheth gwaith safle mewn perthynas â hyn yn ystod 2015-2016. Yn strategol, gellid cael cynnydd pellach hefyd trwy wella cyflymder newid, ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei drin ar y lefelau uchaf o fewn yr asiantaethau. Dylid adnabod cyfleoedd pellach i gynyddu cydweithio er mwyn symleiddio mynediad i bobl a chyflawni amcanion penodol megis lleihau gofal heb ei drefnu ac ati.

Meysydd cynnydd

- Lleihad yn y nifer o bobl hŷn mewn gofal preswyl
- Gostyngiad mewn oedi wrth drosglwyddo gofal
- Sefydlu'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH)

Meysydd i'w gwella

- Sicrhau adolygiadau amserol o gynlluniau gofal
- Cynyddu lleoliadau gyda'r cynllun Rhannu Bywydau
- Sicrhau bod systemau cadarn i fonitro contractau yn bodoli
- Cynnydd pellach tuag at wasanaethau integredig ar gyfer pobl â dementia ac anghenion iechyd meddwl
- Sicrhau capasiti digonol ar gyfer asesiadau trefniadau diogelu rhag colli rhyddid

Plant a phobl ifanc

Trosolwg

- 6.24. Mae perfformiad y cyngor wedi syrthio mewn perthynas â chwblhau asesiadau rhagarweiniol a chraidd eleni. Yn 2013-2014, cwblhaodd y cyngor 78% o asesiadau rhagarweiniol o fewn y saith diwrnod gofynnol, ond yn 2014-15, aeth hyn i lawr i 57%, a lle'r oedd gostyngiad arwyddocaol mewn atgyfeiriadau a'r nifer o asesiadau a gwblhawyd. Pan na chwblhawyd asesiadau mewn pryd, roedd yr oedi ym Merthyr Tudful rhywfaint yn hwy nag yn y mwyafrif o gynghorau eraill Cymru. Bydd y cyngor yn dymuno bod yn gwbl fodlon ei fod yn deall y rheswm am y gostyngiad hwn mewn perfformiad a delio ag ef.
- 6.25. Bu cynnydd arwyddocaol yn y nifer o asesiadau craidd y mae'r cyngor wedi eu cwblhau eleni, a all fod yn berthnasol i'r gostyngiad o ran amseroldeb o 87% a gynhyrchwyd o fewn amserlenni yn 2013-2014 i 81% yn 2014-2015. Serch hynny, mae perfformiad eleni yn unol â chyfartaledd Cymru.
- 6.26. Mae'r cyngor yn perfformio'n dda o ran dyrannu gweithwyr cymdeithasol cymwysedig i blant mewn angen, plant ar y gofrestr amddiffyn plant, a phlant sy'n derbyn gofal. Bu cynnydd bychan yn y tebygolrwydd o

asesiad rhagarweiniol yn cael ei wneud gan weithiwr cymdeithasol. Mae'r awdurdod wedi symud staff i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol gyda chymwysterau uwch yn cael eu dyrannu i'r plant lle mae angen gwaith mwy cymhleth. Rydym yn cydnabod bod dirprwy reolwyr gofal/cynorthwyyr gofal cymdeithasol yn brofiadol iawn. Bydd y cyngor yn dymuno parhau i fodloni ei hun bod gan staff yng ngwasanaethau plant y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith maent yn ei wneud.

- 6.27. Mae'r awdurdod wedi penderfynu bod ychydig llai o blant yn blant mewn angen eleni, yn unol â gostyngiad cyfartalog Cymru o 4%. Mae'r awdurdod wedi buddsoddi mewn gwasanaeth uwch i blant mewn angen, sy'n anelu at gynorthwyo teuluoedd a lleihau'r angen i blant ddod yn blant sydd angen gofal. Rydym yn ymwybodol o'r gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, a amlinellir isod. Derbyniodd y gwasanaeth hwn sgôr boddhad o 87% gan ddefnyddwyr gwasanaeth mewn arolwg gan y cyngor. Mae staff gofal plant wedi derbyn hyfforddiant ar ddull seiliedig ar ganlyniadau, ac mae'r cyngor yn gadarnhaol ynglŷn ag ymgorffori'r dull hwn o fewn llawer o'i dimau yn y gwasanaethau plant, wrth iddo hyrwyddo mwy o gyfranogiad gan deuluoedd yn eu hymyraethau. Byddwn yn ymweld â'r gwasanaeth uwch i blant mewn angen yn 2015-2016.
- 6.28. Mae'r cyngor yn parhau i fod â'r raddfa uchaf o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cyngor wedi cyflawni gostyngiad arwyddocaol eleni, o 134 o blant i 105, sy'n cyfateb i ostyngiad o 22%. Mae hyn wedi rhoi stop ar duedd bedair blynedd ar i fyny ym Merthyr Tudful. Ymgymrodd is-grŵp sicrhau ansawdd a safonau bwrdd diogelu plant Cwm Taf (BDPCT) ag adolygiad o achosion amddiffyn plant lle'r oedd plant yn cael eu dadgofrestru o fewn chwe mis. Mewn rhai achosion, ni ellid sicrhau'r grŵp bod risgiau perthnasol wedi eu trin neu'r trothwy cywir wedi ei ddefnyddio. Roedd cynnydd mewn ail-gofrestriadau yn 2014-2015. Mae'n bwysig bod y cyngor yn deall y canfyddiadau hyn yn llawn ac yn bodloni ei hun bod y gostyngiad mewn cofrestriadau amddiffyn yn gadarn. Gofynnwn am gael ein hysbysu o'r canfyddiadau.
- 6.29. Mae'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH) wedi bod yn gweithredu ar gyfer atgyfeirio diogelu plant ers mis Ebrill 2015, ac felly mae y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn cynrychioli ymgyrch gan yr awdurdod i wella ei brosesau diogelu presennol. Bwriad MASH yw bod yn gam arwyddocaol tuag at wella rhannu gwybodaeth a chymryd penderfyniadau amserol amlasiantaeth, ac edrychwn ymlaen at werthusiad cyntaf y datblygiad hwn pan fydd ar gael. Mae'r cyngor yn cynnal perfformiad rhagorol o ran cynadleddau rhagarweiniol, grwpiau craidd, ac arolygiadau amserol.

- 6.30. Mae BDPCT wedi cwblhau ei brotocol ymddygiad cymryd risg ar gyfer pobl ifanc, ac fe gaiff hyn ei weithredu yn 2015-2016. Mae hyn yn cyflwyno systemau cadarn ar gyfer rheoli risg pobl ifanc, cymryd penderfyniadau clir, a phrosesau uwchgyfeirio. Byddai gennym ddiddordeb mewn cael cipolwg bellach ar arferion y protocol hwn yn 2015-2016. Cafwyd un adolygiad arferion plant yn ystod y flwyddyn, ac fe adnabuwyd rhai camau gweithredu mewn perthynas â threfniadau diogelu a chynlluniau plant mewn angen.
- 6.31. Arolygodd Swyddfa Archwilio Cymru drefniadau rheoli a llywodraethu'r cyngor ar gyfer diogel plant yn 2014. Roedd yr arolgiad yn ystyried amrediad gwasanaethau'r cyngor, a chynghorodd fod mwy o staff o feysydd gwasanaeth y tu allan i'r gwasanaethau cymdeithasol yn derbyn hyfforddiant yn ychwanegol at aelodau etholedig. Cynghorwyd y cyngor i ddatblygu polisi diogelu corfforaethol a phenodi swyddogion diogelu penodol ym mhob maes gwasanaeth y cyngor a sicrhau bod archwilio mewnol priodol ar gyfer diogelu. Adlewyrchir yr argymhellion hyn mewn cynllun gweithredu, ac rydym yn ymwybodol bod camau wedi eu cymryd i fynd i'r afale â materion a godwyd.
- 6.32. Bu i'r cyngor ddyblu nifer y gofalwyr ifanc yr oedd wedi rhoi cymorth ac asesiad anghenion iddynt yn 2014-2015 o'r flwyddyn flaenorol, o 36% i 62%. Cyn hyn, bu problemau gyda chasglu data, ac felly nid yw'n glir i ba raddau y mae hyn yn cynrychioli cynnydd mewn cyflenwi gwasanaeth mewn gwirionedd, ac erys hyn yn arwyddocaol is na chyfartaledd Cymru o 91%. Comisiynir Barnado's i ddarparu asesiad a chymorth i ofalwyr ifanc, ac mae'r gwasanaeth hwn yn ddiweddar wedi ei leoli o fewn y gwasanaethau rhwystro ac ymyrryd yn gynnar. Mae pwysau ariannu o hyd, ac mae'r cyngor yn cydnabod nad yw'n bodloni lefel yr angen i gefnogi gofalwyr ifanc ledled yr awdurdod. Mae'n adrodd ar ei fwriad i weithredu model cefnogaeth mewn rhengoedd, lle bydd y gwasanaeth arbenigol ond yn ymgysylltu â gofalwyr ifanc sydd angen lefel uwch o gefnogaeth.
- 6.33. Hefyd, bu bwch yn y ddarpariaeth benodol ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr ac sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd i addysg bellach neu'r farchnad waith. Mae hwn yn gyfnod arwyddocaol ym mywyd person ifanc lle gall cynllunio a gwneud dewisiadau fod yn arbennig o anodd i rai gyda chyfrifoldebau gofalu. Bydd y cyngor yn dymuno bod yn hyderus ei fod yn rhyddhau cyllid priodol ac yn fodlon gyda'i drefniadau comisiynu, fel ei fod yn darparu'r lefel briodol o gefnogaeth i'r plant a'r bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed.
- 6.34. Roedd cydweithfa mabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn cael ei datblygu yn ystod y flwyddyn, ac mae'n un o'r gwasanaethau

mabwysiadu rhanbarthol sy'n ffurfio'r gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Bydd cynnydd y gwasanaeth rhanbarthol yn cael ei arolygu'n ofalus i sicrhau bod perfformiad yn cyfateb i, ac yn well na'r hyn a gyflawnwyd gan y cyngor ar ei ben ei hun. Daeth gwasanaeth troseddau ieuenctid Cwm Taf yn gwbl weithredol ym mis Hydref 2014. Mae'r cyd-wasanaeth gyda Rhondda Cynon Taf yn gweithio ar ddau safle, gyda Rhondda Cynon Taf yn darparu rheolaeth llinell. Rydym yn deall na fu i'r uno ryddhau unrhyw arbedion i'r awdurdodau. Ynghyd â gwasanaethau troseddau ieuenctid eraill, bu gostyngiad arwyddocaol yn y nifer o bobl ifanc yn cael eu hanfon i'r ddalfa o Ferthyr Tudful yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf neu'n mynd i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf. Mae ail-droseddu ymhlith pobl ifanc ym Merthyr Tudful yn aros yn gymharol uchel, er bod hyn oherwydd nifer fechan iawn o bobl ifanc.


Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.35. Mae amrediad o wasanaethau a chymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar ar gael o fewn yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys cyd-dîm integredig cymorth i deuluoedd gyda Rhondda Cynon Taf. Bu ymdrechion i arolygu cylch gorchwyl ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn a dangos canlyniadau ymyrraeth yn well. Gostyngodd atgyfeiriadau i'r gwasanaeth o 30 o deuluoedd yn 2013-2014 i 24 yn 2014-2015. Deallwn fod gan y cyngor beth hyder y bydd newidiadau mewnol yn gwella'r gwasanaeth yn 2015-2016.
- 6.36. Mae'r cyngor hefyd yn gweithredu'r cynllun Cymorth Aml-ymyrraeth o'i raglen Teuluoedd yn Gyntaf, ynghyd â grwpiau eraill yn ymwneud â rhianta, trais domestig ac ati. Dymuna'r awdurdod i deuluoedd gael ymateb cyflym a chymesur i'w ceisiadau am gymorth, ac mae'n cydnabod y gellir darparu hyn orau gan wasanaethau rhwystro a ddarperir gan y trydydd sector. Gwnaed gwaith arolygu i wella mynediad at y Cymorth Aml-ymyrraeth gan deuluoedd gyda phlentyn ag anabledd. Gellir cyfeirio at gynhadledd grŵp teuluol a chyflafareddu fel rhan o'r gwasanaeth uwch i blant mewn angen neu'r amlinelliad cyfraith gyhoeddus. Mae'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a gomisiynwyd yn gymharol isel, er yn amlwg os bydd ymyrraeth o'r fath yn rhwystro'r angen i dderbyn i ofal, yna mae o fudd arwyddocaol i deuluoedd a bydd yn arwain at arbedion i'r awdurdod. Mae'r gostyngiad bychan mewn plant mewn angen yn gadarnhaol; ond bydd y cyngor yn ceisio cael gostyngiad pellach trwy effaith rhwystro ac ymyrryd yn gynnar.

- 6.37. Mae'r awdurdod yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i roddi gwybodaeth, cyngor a chymorth dan ddarpariaethau'r Ddeddf GCLIC. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynnydd cyffyrddadwy yn y maes hwn, ond mae'r cyngor yn rhagweld y darperir hyn gan wasanaethau cyffredinol a/neu'r trydydd sector, gan ganiatáu i'r gwasanaethau cymdeithasol gysylltu gyda theuluoedd ac unigolion gyda materion mwy cymhleth. Bydd hyn yn gofyn am gynllun cryf ar gyfer ymgysylltiad cyhoeddus.
- 6.38. Mae Dechrau'n Deg nawr o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn caniatáu mwy o ffocws ar y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar hanofdol hyn. Rydym wedi arolygu amrediad o ddarpariaeth gofal dydd ledled Merthyr Tudful a gaiff ei hariannu neu ei hariannu'n rhannol gan Ddechrau'n Deg. Rydym wedi canfod yn gyson bod cynghorwyr Dechrau'n Deg yn rhagweithiol ac yn awyddus i gadw safonau uchel o fewn lleoliadau. Rydym wedi codi rhai materion eleni ar ôl arolygiadau o leoliadau a ariennir yn rhannol gan Ddechrau'n Deg. Tra bod cynghorwyr wedi ceisio delio â'r materion, maent wedi chwarae llai o ran yn y gwasanaethau oherwydd y trefniadau ariannu rhannol.
- 6.39. Mae asesiad digonolrwydd gofal plant Merthyr Tudful (2014-2017) yn dangos rôl arweiniol y cyngor wrth *'hwyluso'r farchnad gofal plant i sicrhau ei bod yn bodloni anghenion rhieni sy'n gweithio'*. Canfu'r asesiad fod rhieni sengl a phobl sydd eisiau dychwelyd i'r gwaith sy'n ystyried y diffyg ymddangosiadol o ofal plant fforddiadwy fel rhwystr. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn caniatáu i ofalwyr plant cofrestredig ofalu am chwe phlentyn dan wyth oed ar y mwyaf. Fodd bynnag, mae'r adran gynllunio ym Merthyr Tudful yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr plant sy'n dymuno gofalu am fwy na thri o blant i wneud cais am ganiatâd cynllunio. Gofynnwn nad yw'r cyngor yn doddi ei gyfyngiad 'blanced' ei hunan ar ofalwyr plant cofrestredig ac ystyried y cyngor yn y cylchlythyr *Cynllunio a Gofal Plant yng Nghymru* (Awst 2006). Mae'r cyfyngiad hwn yn debygol o rwystro pobl sy'n ystyried gofalu am blant ac felly'n effeithio ar y farchnad gofal plant. At hyn, bydd estyniad sydd ar ddod i gofrestrriad gofal plant ar gyfer pobl sy'n gofalu am blant hyd at 12 oed yn gofyn am adolygiad o fewn yr awdurdod, a buasem yn cynghori bod ystyriaeth ddifrifol yn cael ei rhoi i bennu unrhyw gyfyngiadau pellach.

Plant sy'n derbyn gofal



Merthyr Tudful
Cymru

Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2015

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Merthyr Tudful	152	161	174	185	176	160	150

6.40. Mae'r siart uchod yn dangos y duedd saith blynedd yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth ledled Cymru ac ym Merthyr Tudful. Mae'n dangos tuedd ar i lawr yn y niferoedd o blant sy'n derbyn gofal dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae Merthyr Tudful yn parhau i ofalu am fwy o blant, fesul pen, na'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill yng Nghymru (y pumed uchaf ydyw). Mae wedi gofalu am ddeg yn llai o blant eleni, sydd yn unol â'i strategaeth gadarn i leihau niferoedd gan 30 o blant dros y tair blynedd nesaf (2015-2018). Bydd hyn yn rhyddhau arbedion o £500,000 o leiaf, a gaiff ei groesawu gan mai'r gyllideb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yw'r pwysau ariannol mwyaf arwyddocaol yn y gwasanaethau plant.

6.41. Mae'r cyngor yn anelu at rwystro 'drifft' pobl ifanc yn y system ofal trwy sicrhau dychweliad adref amserol, lle'n bosibl, neu gynllunio ar gyfer dyfodol parhaol. Mae'r strategaeth yn amlinellu disgwyliadau uchel o'i gweithwyr cymdeithasol o ran cynllunio a chynnal dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a system o baneli wythnosol a misol i sicrhau monitro ac

adolygu parhaus. Mae'r awdurdod yn perfformio'n dda o ran sicrhau bod gan blant cymwys gynllun ar gyfer dyfodol parhaol.

- 6.42. Mae pob un ac eithrio nifer fechan o blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod yn byw yn ardal yr awdurdod, ac mae'r mwyafrif mewn gofal maeth (mewnol neu asiantaeth annibynnol). Mae dangosyddion perfformiad wedi dangos gostyngiad mewn sadrwydd lleoliad ar gyfer grŵp bychan o bobl ifanc, lle mae 7% wedi gweld symud tair gwaith neu fwy yn y flwyddyn, o gymharu â 3% yn 2013-2014. Yn ystod y flwyddyn, mae'r awdurdod wedi cryfhau gwaith arolygu pobl ifanc sy'n derbyn gofal trwy gyflwyno cyfarfodydd a phaneli gyda swyddogaethau, gan leihau symudiadau y gellir eu hosgoi.
- 6.43. Cafodd gwasanaeth maethu'r awdurdod adroddiad arolygu cadarnhaol gan AGGCC eleni. Fe'n hysbysir gan y cyfarwyddwr bod un neu fwy o ofalwyr maeth wedi gadael asiantaethau annibynnol i ddod yn ofalwyr llywodraeth leol, oherwydd y gefnogaeth gref a roddir. Fel rhan o'r strategaeth plant sy'n derbyn gofal (Mawrth 2015), mae'r cyngor yn parhau i recriwtio gofalwyr maeth i gynyddu capasiti mewnol a rhoi hyfforddiant iddynt i wella eu sgiliau wrth ofalu am bobl ifanc ag anabledd ac anghenion cymhleth. Cafodd 34 o ofalwyr ychwanegol eu recriwtio yn 2014-2015, ac mae 40 o ofalwyr wedi derbyn hyfforddiant hyd at fis Mehefin 2015. Mae'r cyngor yn bwriadu gwneud llai o ddefnydd o asiantaethau maethu annibynnol a lleihau achosion o leoliad yn chwalu. Mae angen cymeradwyaeth uwch-reolwyr nawr o fewn y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pob lleoliad gydag asiantaethau maethu annibynnol i roddi mwy o graffu. Nid yw'r cyngor yn rhedeg ei gartrefi plant ei hun, ac mae'n parhau i ddefnyddio trefniadau consortiwm i gomisiynu lleoliadau i blant yn y system ofal.
- 6.44. Bu gostyngiad arwyddocaol mewn ymweliadau statudol â phlant yn eu lleoliadau, o 93% y llynedd i 79% yn 2014-2015, ac mae'r perfformiad hwn islaw cyfartaledd Cymru o 88%. Mae'r cyngor yn perfformio'n dda wrth sicrhau cyfarfodydd adolygu rheolaidd ar gyfer plant. Fodd bynnag, bydd gan weithwyr cymdeithasol fwy o syniad o anghenion a dymuniadau plant lle mae lefel gysylltu dda. Bu cynnydd yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal yn symud ysgolion o fewn y flwyddyn, sydd wedi mynd â Merthyr Tudful uwchben cyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r amrywiad oherwydd nifer fechan iawn o blant (pedwar yn fwy na'r llynedd). Mae'r cyngor wedi cyflawni perfformiad rhagorol wrth sicrhau bod gan blant sy'n derbyn gofal gynllun addysg personol, ac mae ffigurau presenoldeb ar gyfer plant ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n derbyn gofal yn dda. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn parhau i fod yn bryderus ynglŷn â pherfformiad cymharol waelach plant sy'n derbyn gofal yng nghyfnod allweddol 4, ac mae ganddo amrediad o flaengareddau i ddelio â hyn.

- 6.45. Mae'r cyngor yn rhoi cymorth da i'r bobl ifanc hynny sy'n gadael y system ofal. Mae'r holl bobl ifanc sy'n gadael gofal yn 2014-2015 mewn llety addas, ac mae 13 allan o 15 mewn cysylltiad â gweithwyr cymdeithasol neu gynghorwyr personol. Mae'r cyngor yn comisiynu Barnado's i ddarparu cynghorwyr personol i gefnogi pobl ifanc. Mae'r dangosyddion yn nodi perfformiad rhagorol wrth sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal gynlluniau clir ar gyfer y dyfodol agos (cynllunio llwybr) ac â chynghorydd personol penodol, yn ychwanegol at weithwyr cymdeithasol/gweithwyr cymorth. Nid yw'r holl bobl ifanc mewn gwaith neu addysg, er bod y niferoedd mor fach y mae'r gwasanaethau plant yn gwbl ymwybodol o'r rhesymau dros hyn. Mae'r cyngor wedi gweithredu cynllun 'pan wyf yn barod' y bu iddo dreialu yn flaenorol. Mae'r cyngor yn bwriadu adolygu ei wasanaethau i'r sawl sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill 16 oed a throsodd yn 2015-2016.
- 6.46. Sefydlwyd grŵp o blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal i chwarae rhan yn y gwaith o lunio polisi, ac mae'n bwydo gwybodaeth i'r bwrdd rhianta corfforaethol, a gofynnwyd iddo wneud sylwadau ar agweddau penodol o weithrediadau.

Meysydd cynnydd

- Gostyngiad yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal
- Sefydlu MASH
- Sefydlu protocol cymryd risgiau
- Cymorth i ofalwyr ifanc
- Recriwtio a hyfforddi gofalwyr maeth ychwanegol

Meysydd i'w gwella

- Cwblhau asesiadau rhagarweiniol yn amserol
- Amllder ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal
- Cymorth i oedolion ifanc sy'n ofalwyr
- Newid yn y polisi cynllunio ar gyfer gofalwyr plant

7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

- 7.1. Mae 2014-2015 wedi bod yn arwyddocaol o ran colli swyddogion gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi bod yn eu swyddi am amser maith ar y lefelau uchaf a gweithredu strwythur rheoli corfforaethol newydd. Rhwng canol 2014 ac Ebrill 2015, roedd pedwar cyfarwyddwr statudol gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys swyddi dros dro) a newidiadau cysylltiedig ar lefel pennaeth gwasanaeth. Bydd yn ddi-os wedi cael effaith ar gynnydd newid er gwaethaf gallu ac ymrwymiad y rhai dan sylw.
- 7.2. Mae'r prif weithredwr wedi sefydlu strwythur newydd, gan greu dwy swydd cyfarwyddwr corfforaethol a phedwar prif swyddog i ddisodli rolau cyfarwyddwyr. Nid yw'r strwythur hwn yn cyd-fynd â'r canllawiau ar gyfarwyddwyr statudol gwasanaethau cymdeithasol. Rydym wedi cyfarfod gyda'r prif weithredwr, sydd wedi ein sicrhau o'i gysylltiad uniongyrchol rheolaidd gyda'r prif swyddog/cyfarwyddwr statudol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a'i hyder yng nghadernid y strwythurau llywodraethu. Rydym hefyd yn ymwybodol bod trefniadau cefnogi ffurfiol yn bodoli ar gyfer y cyfarwyddwr newydd ei benodi. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y strwythur newydd; fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried y gall gryfhau capasiti'r cyngor i ymateb i'r heriau ariannol i'r dyfodol.
- 7.3. Yn ariannol, tanwariodd y gwasanaethau cymdeithasol rhyw £114,000 yn 2014-2015. Ar y cyfan, fodd bynnag, defnyddiodd y cyngor ei gronfeydd wrth gefn i gydbwysu ei gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae her arwyddocaol yn wynebu'r awdurdod dros y tair blynedd nesaf pan bennwyd targedau arbed sylweddol. Mae adroddiad gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (Mehefin 2015) yn cynghori'r cyngor i barhau gyda'r cymorth presennol ar gyfer rheolaeth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Amcan hyn yw cynorthwyo hunan-herio parhaus ar wariant i wireddu canlyniadau cadarnhaol a gwelliannau. Yn 2013-2014, gwariodd gwasanaethau cymdeithasol Merthyr Tudful y trydydd uchaf fesul pen yng Nghymru, ac mae eisiau lleihau hyn yn ddiogel dros amser. Mae costau gofal preswyl a gofal cartref i oedolion a chefnogi lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn uchel, ac mae pwyslais cynyddol ar systemau panel i gymeradwyo ac adolygu gwariant.
- 7.4. Bu cynnydd o ran datblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i wella llesiant gydag amcanion strategol clir a chanlyniadau mesuradwy – er enghraifft, y strategaeth i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r cyfarwyddwr yn disgrifio'r strwythur newydd fel un sy'n rhoi mwy o gyfle i weithio tuag at amcanion cyffredin

ar draws gwasanaethau cymdeithasol ac addysg a mwy o bwyslais ar reoli perfformiad.

- 7.5. Mae bwrdd partneriaeth gwasanaethau cymdeithasol a llesiant Cwm Taf, ar y cyd â grŵp gweithredol, wedi ei ffurfio i sicrhau gweithrediad effeithiol gofynion y Ddeddf GCLIC, gydag ymarfer hunanasesu yn bwydo gwybodaeth i'r broses. Sefydlodd hyn 17 ffrwd waith y bydd cynrychiolwyr y cyngor yn cymryd rhan ynddynt neu'n eu harwain i sicrhau gweddnewidiad ym mhob maes penodol. Sefydlwyd cyfarfodydd i gynyddu ymwybyddiaeth y staff a'u hysbysu o'r hyn sy'n digwydd. Gall y cyfarwyddwr leisio ei maes cyfrifoldeb hi yn glir er mwyn gwella llesiant a rhannu hyn yn nodau ac amcanion strategol. Mae'r cyfarwyddwr a'i staff yn canolbwyntio ar her y ddeddfwriaeth newydd, ac mae hi'n ystyried mai newid disgwyliadau dinasyddion Merthyr Tudful o'r gwasanaethau cymdeithasol fydd yr her fwyaf.
- 7.6. Mae'r awdurdod wedi cytuno uned hyfforddi ar y cyd â Rhondda Cynon Taf yn ystod y flwyddyn, ac mae'n gweithio tuag at gael hon yn gweithredu yn 2015-2016. Mae'r cyngor yn comisiynu ei hyfforddiant gan ddarparwyr allanol, ond efallai y bydd angen iddo ganfod model cyffredin o gyflenwi hyn gyda'i bartner awdurdod lleol, sy'n gweithredu model cyflenwi gwahanol.
- 7.7. Mae'r cyngor yn bwriadu cyflogi darparwr annibynnol i ddatblygu dau gyfleuster gofal ychwanegol, gan ddefnyddio safleoedd cartrefi gofal presennol. Bydd camau pellach y gall yr awdurdod eu cymryd i yrru'r farchnad yn ei arferion comisiynu. Roedd cyd-strategaeth gomisiynu gyda Rhondda Cynon Taf yn cael ei datblygu yn 2014-2015, a dylai hyn roi Merthyr Tudful mewn sefyllfa gryfach i gomisiynu gydag arloesiad.
- 7.8. Mae'r cyfarwyddwr yn adnabod cynnydd cyfyngedig eleni o ran symud ymlaen â gwaith ar 'Mwy na Geiriau', y fframwaith ar gyfer gwasanaethau iaith Gymraeg. Roedd hyn oherwydd y pwysau yn deillio o baratoi ar gyfer y Ddeddf GCLIC.
- 7.9. Mae'r adolygiad a'r adroddiad gwerthuso 2014-2015 a gomisiynwyd ar waith craffu yn adlewyrchu beirniadaethau o gadernid craffu ar draws pwyllgorau'r awdurdod am fwy na deg mlynedd. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu newid cadarnhaol gyda hyfforddiant o aelodau wedi ei adnabod, presenoldeb rheolaidd aelodau cabinet, a rhaglen waith 'gadarn' wedi eu cytuno. Tra nad yw presenoldeb yn broblem gyffredinol, o ystyried maint pwyllgorau, roedd methu â chael cworwm ar un achlysur yn y flwyddyn wedi digwydd oherwydd absenoldeb nifer cymharol fechan o bobl. Roedd ein harsylwi ni o waith craffu yn adlewyrchu canfyddiadau'r adroddiad bod tystiolaeth o gyfarfodydd ymlaen llaw gyda chwestiynau o ansawdd wedi eu paratoi. Bu i ni hefyd

arsylwi bod cryfder cwestiynau dilynol yn amrywio, ac mae hyn yn unol ag arfarniad yr adroddiad adolygu. Mae cadeiryddion craffu wedi adnabod mwy o ffocws ar berfformiad a chanlyniadau'r cyngor a hyfforddiant parhaus aelodau fel amcanion gwella.

Meysydd cynnydd

- Cyfarwyddwr parhaol wedi ei sefydlu yn y swydd
- Gwella'r broses graffu

Meysydd i'w gwella

- Cynnydd gyda chomisiynu arloesol yn y gwasanaethau oedolion